Cyd-bwyllgor Corfforedig
De-orllewin Cymru
South West Wales
Corporate Joint Committee

Cyd-bwyllgor Corfforedig De-Orllewin Cymru (SWWCJC)

Polisi Sylwadau, Canmoliaeth a Chwynion (Fersiwn 002)

Cyngor Abertawe Swansea Council
Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
Cyngor Castell-nedd Port Talbot Neath Port Talbot Council
Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Pembrokeshire Coast National Park
Bannau Brycheiniog

Cyd-bwyllgor Corfforedig
De-orllewin Cymru
South West Wales
Corporate Joint Committee

Tabl Cynnwys

1. Cyflwyniad 2
2. Sylwadau a Chanmoliaeth 2
3. Cwynion 2
   3.1 Diffinio Cwyn 3
   3.2 Pryd y dylid defnyddio'r polisi hwn 3
   3.3 Sut i gwyno 3
   3.4 Cwyn Cam 1: Datrysiad anffurfiol 4
   3.5 Cwyn Cam 2: Ymchwiliad Ffurfiol 4
   3.6 Cwynion ynghylch y Gymraeg 5
   3.7 Ymdrin â'ch cwyn (Cwyn 2) 6
   3.8 Ymchwilio i Gŵynion 6
   3.9 Beth os oes mwy nag un corff ynghlwm â'r mater 7
   3.10 Canlyniad eich cwyn 8
   3.11 Unioni'r Mater 8
   3.12 Dysgu gwersi 8
   3.13 Beth yr ydym yn ei ddisgwyl gennych chi 9
4. Os oes angen rhagor o gymorth arnoch 10
   4.1 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 10
5. Ffurflen Sylwadau, Canmoliaeth a Chwynion 12

1. Cyflwyniad

Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru o'r gred bod yr holl sylwadau, canmoliaeth a chwynion a geir yn ffynhonnell wybodaeth bwysig am y gwasanaethau a ddarparwn.

Ein hamcanion yw:

- gwneud cwyno'n broes hawdd pan nad yw gwasanaeth wedi bod yn ddigon da
- datrys cwynion er boddhad y cyhoedd lle bynnag y bo'n rhesymol bosibl, a lle nad yw'n bosibl, esbonio'r rhesymau'n llawn
- dysgu o'r sylwadau, canmoliaeth a chwynion i helpu i nodi gwelliannau a darparu gwell arferion wrth ddarparu gwasanaethau; a
- defnyddio gwybodaeth sy'n deillio o'r sylwadau, canmoliaeth a chwynion i fonitro effeithiolrwydd polisïau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.

2. Sylwadau a Chanmoliaeth

Mae sylwadau a chanmoliaeth yn cael eu croesawu a'u gwerthfawrogi gan eu bod yn rhoi syniad sut rydym yn perfformio. Yn ogystal, mae'r awgrymiadau a'r syniadau rydych chi'n eu darparu yn bwysig o ran gwella gofal cwsmeriaid, ansawdd gwasanaeth a morâl staff.

Gall sylwadau fod yn awgrymiadau ynghylch sut y gellid gwella gwasanaethau, a dylai'r gwasanaeth dan sylw ystyried y rhain. Gallant fod yn safbwyntiau, andwyol o bosibl, am bolisi a darpariaeth y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

Gwerthfawrogir canmoliaeth yn fawr gan eu bod yn gadarnhad bod y Cyd-bwyllgor Corfforedig a'i weithwyr yn darparu gwasanaethau sy'n bodloni disgwyliadau neu'n rhagori arnynt.

Os hoffech gyflwyno sylwadau neu ganmol, defnyddiwch Adran E o'r ffurflen Sylwadau, Canmoliaeth a Chwynion neu e-bostiwch ni yn info@southwestcjc.gov.wales .

3. Cwynion

Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru wedi ymroi i ymdrin yn effeithiol ag unrhyw bryderon neu gŵynion am ein gwasanaethau. Yn y polisi hwn mae'r term "cwyn" yn cyfeirio at bryder neu gŵyn.

Ein nod yw egluro unrhyw faterion y gallech fod yn ansicr yn eu cylch. Os yw'n bosibl, byddwn yn cywiro unrhyw gamgymeriadau y gallem fod wedi'u gwneud. Byddwn yn darparu unrhyw wasanaeth y mae gennych hawl i'w gael ond y

gwnaethom fethu â'i gyflawni.
Os gwnaethom rywbeth yn anghywir, byddwn yn ymddiheuro a, lle bo hynny'n bosibl, yn ceisio unioni pethau ichi. Ein nod yw dysgu o'n camgymeriadau a defnyddio'r wybodaeth a gawn o'r cwynion i wella ein gwasanaethau.

3.1 Diffinio Cwyn

Os ydych yn cysylltu â ni er mwyn gofyn am wasanaeth am y tro cyntaf (e.e. rhoi gwybod am olau stryd diffygiol neu ofyn am apwyntiad), nid yw'r polisi hwn yn berthnasol.

Yn gyntaf, dylech roi cyfle i'r gwasanaeth perthnasol ymateb i'ch cais am wasanaeth.

3.2 Pryd y dylid defnyddio'r polisi hwn

Os ydych yn cael gwasanaeth neu'n gwneud cais am wasanaeth ac yna nid ydych yn fodlon â'n hymateb, byddwch yn gallu rhoi gwybod am eich cwyn fel y disgrifir isod.

Weithiau gall fod gennych hawl statudol i apelio, e.e. yn erbyn penderfyniad i wrthod caniatâd cynllunio neu beidio â rhoi lle i'ch plentyn mewn ysgol benodol. Felly yn hytrach nag ymchwilio i'ch cwyn, byddwn yn egluro i chi sut gallwch apelio.

Nid yw'r polisi hwn yn berthnasol i faterion mynediad i ddata.

3.3 Sut i gwyno

Gallwch gwyno yn un o'r ffyrdd canlynol:

- Gwefan: https://de-orllewincbc.llyw.cymru
- E-bost: info@southwestcjc.gov.wales
- Ysgrifennwch lythyr atom a'i bostio at:

  At sylw'r Swyddog Monitro

  Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru

  Trwy ofal

  Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

  Y Ganolfan Ddinesig

  Port Talbot

  SA13 1PJ

- Gofynnwch am gopi o'n Ffurflen Gŵynion gan yr unigolyn rydych yn delio â nhw eisoes. Dywedwch wrthynt eich bod am i ni ddelio â'ch cwyn yn ffurfiol.

Gallwch wneud cwyn ym mha fformat bynnag (print bras, Braille, ar dâp neu ddisg) neu iaith rydych chi'n ei ddymuno.

Rydym yn croesawu cwynion yn Gymraeg, a chedwir at yr un safonau ac amserlenni wrth ymdrin â chwynion Cymraeg a Saesneg.

Mae copïau o'r Polisi a ffurflenni Sylwadau, Canmoliaeth a Chwynion ar gael yn Gymraeg a Saesneg a gellir eu darparu mewn ieithoedd eraill hefyd. Darperir fformatau fel sain, Braille neu brint bras hefyd os oes angen.

3.4 Cwyn Cam 1: Datrysiad anffurfiol

Credwn ei bod yn well ymdrin â phethau ar unwaith.

Os oes gennych gŵyn, trafodwch hyn â'r unigolyn rydych yn ymdrin ag ef. Byddant yn ceisio'i ddatrys ichi yn y fan a'r lle. Os oes unrhyw wersi i'w dysgu wrth fynd i'r afael â'ch cwyn, bydd yr unigolyn rydych yn delio â nhw yn tynnu sylw'r swyddog cwynion perthnasol atynt.

Os na all yr unigolyn rydych chi'n delio â nhw helpu, byddant yn esbonio pam a gallwch wedyn ofyn am ymchwiliad ffurfiol.

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd swyddog yn ymateb i'ch cwyn o fewn 10 diwrnod gwaith. Os nad yw hyn yn bosibl, cewch wybod yn ysgrifenedig beth yw'r rheswm dros yr oedi, ynghyd â'r dyddiad y gallwch ddisgwyl derbyn ymateb llawn.

Os ydych yn anfodlon ar ymateb y gwasanaeth / maes gwasanaeth, gallwch ofyn wedyn am ymchwiliad ffurfiol.

Gall y Cyd-bwyllgor Corfforedig ddewis mynd yn syth at Gŵyn Cam 2: Ymchwiliad Ffurfiol, a rhoddir gwybod i chi ar y cyfle cyntaf posibl.

3.5 Cwyn Cam 2: Ymchwiliad Ffurfiol

Gellir cynnal ymchwiliad Cam 2 os nad ydych wedi derbyn ymateb yng Ngham 1, os nad ydych yn hapus gyda'r ymateb gawsoch, neu os ydych yn credu bod eich cwyn heb gael ei hystyried yn briodol.

Yng Ngham 2 byddai'n ddefnyddiol pe gallech ddarparu rhywfaint o wybodaeth am y materion rydych yn parhau i fod yn anhapus yn eu cylch, y rhesymau pam rydych yn meddwl na chafodd y materion hyn eu hystyried yn briodol yng Ngham 1, yn ogystal ag unrhyw fanylion am y canlyniad rydych yn gobeithio amdano.

Byddwch yn derbyn cydnabyddiaeth o'ch cwyn Cam 2 o fewn 5 diwrnod gwaith.

Bydd y Prif Swyddog Gweithredu, y Swyddog Adran 151 neu'r Swyddog Monitro ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru yn ymgymryd â'r ymchwiliad a fydd yn cynnwys adolygiad o'r holl ohebiaeth berthnasol, ac yn aml yn cynnwys trafodaethau gyda chi a swyddogion perthnasol er mwyn gallu rhoi ymateb llawnach.

Fel arfer, bydd ymateb i'ch cwyn yn cael ei ddarparu o fewn 20 diwrnod gwaith. Os nad yw hyn yn bosibl, cewch wybod yn ysgrifenedig beth yw'r rheswm dros yr oedi cyn pen 20 diwrnod gwaith, ynghyd â'r dyddiad y gallwch ddisgwyl derbyn ymateb llawn.

Pan fyddwch yn cael y canlyniad, byddwch hefyd yn cael ffurflen monitro cydraddoldeb yr ydym yn gofyn i chi ei chwblhau a'i dychwelyd atom er mwyn ein helpu i sicrhau na wahaniaethir yn erbyn neb sy'n cael mynediad i'n gwasanaethau, ac er mwyn sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal.

3.6 Cwynion ynghylch y Gymraeg

Bydd cwynion ynghylch y Gymraeg, neu gydymffurfio â safonau darpariaeth a pholisi'r Gymraeg, fel sy'n berthnasol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig, yn cael eu trin yn yr un modd ag unrhyw gŵynion eraill, ac ymatebir iddynt yn unol â safonau'r Gymraeg.

Mae'r staff yn ymwybodol o ofynion y safonau gan fod sesiynau hyfforddi yn cael eu darparu fel rhan o'r broses sefydlu a bod ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

Yn achos cwynion sy'n ymwneud â chael gwasanaeth anfoddhaol, lle ystyrir bod y Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg neu lle ceir honiad o ymyrryd â'ch rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg, gellir eu cyfeirio hefyd at Gomisiynydd y Gymraeg:

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd
CF10 1AT
Ffôn: 0345 6033 221

E-bost: post@comisiynyddygymraeg.cymru

Bydd cwynion a geir drwy Gomisiynydd y Gymraeg yn cael eu trin yn unol â phroses gwyno'r Comisiynydd ei hun.

3.7 Ymdrin â'ch cwyn (Cwyn 2)

Byddwn yn ymateb i chi yn yr un modd ag y gwnaethoch gyfathrebu â ni (e.e. os gwnaethoch gwyno drwy e-bost yn Gymraeg, byddem yn ymateb i chi drwy e-bost yn Gymraeg) oni bai eich bod yn rhoi gwybod i ni fod gofynion penodol gennych.

Byddwn yn gofyn ichi ddweud wrthym sut yr hoffech inni gyfathrebu â chi ac a oes gennych unrhyw ofynion penodol, er enghraifft os oes angen ichi gael dogfennau mewn print bras.

Byddwn yn ymdrin â'ch cwyn mewn ffordd agored a gonest a byddwn yn sicrhau nad yw eich ymwneud â ni yn y dyfodol yn dioddef oherwydd eich bod wedi gwneud cwyn.

Fel arfer, byddwn yn gallu edrych ar eich cwyn yn unig os ydych yn rhoi gwybod inni amdano cyn pen 6 mis. Mae hyn oherwydd ei bod yn well ymchwilio i gŵyn tra bo'r materion yn dal i fod yn eglur ym meddyliau pawb.

Mewn amgylchiadau eithriadol, mae'n bosibl y byddwn yn edrych ar gŵynion sy'n dod i'n sylw yn hwyrach na hyn. Ond bydd yn rhaid i chi roi gwybod i ni pam nad ydych wedi gallu dod ag ef i'n sylw yn gynharach a bydd angen inni gael digon o wybodaeth ynghylch y mater er mwyn ein galluogi i roi ystyriaeth lawn iddo.

Os ydych yn cwyno ar ran rhywun arall, bydd angen iddynt gydsynio eich bod yn gweithredu ar eu rhan. Gellir gwneud hyn drwy lenwi'r Ffurflen Awdurdod Cynrychiolydd sydd wedi'i chynnwys yn y polisi hwn.

3.8 Ymchwilio i Gŵynion

Mewn rhai achosion efallai byddwn yn penodi ymchwilydd annibynnol.

Bydd yr unigolyn sy'n ymchwilio i'ch cwyn yn anelu at gadarnhau'r ffeithiau yn gyntaf. Bydd maint yr ymchwiliad yn dibynnu ar ba mor gymhleth yw'r materion a godwyd gennych. Mewn rhai achosion, efallai y byddwn yn gofyn am gael cwrdd â chi i drafod eich cwyn. Yn achlysurol, efallai y byddwn yn awgrymu cyfryngu neu ddull arall i geisio datrys anghydfodau. Byddwn yn edrych ar dystiolaeth berthnasol a allai gynnwys ffeiliau, nodiadau o sgyrsiau, llythyrau, negeseuon e-bost neu beth bynnag a all fod yn berthnasol i'ch cwyn benodol. Os bydd angen, byddwn yn siarad â'r staff neu bobl eraill sydd ynghlwm â'r mater ac yn edrych ar ein polisïau, unrhyw hawliau cyfreithiol a chanllawiau.

Fel arfer bydd angen i'r unigolyn sy'n rhoi sylw i'ch cwyn weld y ffeiliau sydd gennym sy'n berthnasol i'ch cwyn. Os nad ydych am i hyn ddigwydd, mae'n bwysig eich bod yn dweud hyn wrthym. Lle bo angen datgelu pwy ydych chi i unigolyn arall er mwyn ymchwilio i'r gŵyn, mae'n bwysig eich bod chi'n dweud wrthym os nad ydych am i hyn ddigwydd. Yn dibynnu ar natur eich cwyn, efallai y bydd angen eich caniatâd i gael eich cofnodion personol. Os na roddir caniatâd, byddwn yn egluro y bydd hyn yn effeithio ar y gallu i gynnal ymchwiliad trylwyr.

Byddwn yn amlinellu ein dealltwriaeth o'ch cwyn ac yn gofyn ichi gadarnhau ein bod yn gywir. Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ddweud wrthym pa ganlyniad rydych yn gobeithio'i gael.

Os oes ateb syml i'ch problem, mae'n bosibl y byddwn yn gofyn ichi a ydych yn hapus i dderbyn hyn. Er enghraifft, pan ofynnoch am wasanaeth a gallwn weld ar unwaith y dylech fod wedi'i gael, byddwn yn cynnig darparu'r gwasanaeth yn hytrach nag ymchwilio.

Byddwn yn anelu at ddatrys cwynion mor gyflym â phosibl a byddwn yn disgwyl ymdrin â'r mwyafrif helaeth cyn pen 20 diwrnod gwaith. Os yw eich cwyn yn fwy cymhleth, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Rhoi gwybod ichi o fewn y cyfnod hwn pam rydym yn credu y gall gymryd mwy o amser i ymchwilio;
- Dweud wrthych pa mor hir rydym yn disgwyl iddo gymryd;
- Rhoi gwybod ichi lle rydym arni o ran yr ymchwiliad; a
- Rhoi diweddariadau rheolaidd ichi, gan gynnwys dweud wrthych a all unrhyw ddatblygiadau newid ein hamcangyfrif gwreiddiol.

3.9 Beth os oes mwy nag un corff ynghlwm â'r mater

Os oes mwy nag un corff ynghlwm wrth eich cwyn (e.e. awdurdod lleol a'r Cyd-bwyllgor Corfforedig), byddwn yn gweithio gyda nhw i benderfynu pwy ddylai arwain wrth ymdrin â'ch cwyn ac wedyn byddwch yn cael enw'r unigolyn hynny.

Os yw'r gŵyn am gorff sy'n gweithio ar ein rhan (e.e. cwmni wedi'i gontractio gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig), mae'n bosibl byddwch am godi'r mater yn anffurfiol gyda nhw gyntaf. Fodd bynnag, os ydych am gwyno'n ffurfiol, byddwn yn ymchwilio i hyn ein hunain ac yn ymateb ichi.

3.10 Canlyniad eich cwyn

Os byddwn yn ymchwilio'n ffurfiol i'ch cwyn, byddwn yn rhoi gwybod ichi beth rydym yn ei ddarganfod drwy ddefnyddio'r dull cyfathrebu y cytunwyd arno. Os bydd angen, byddwn yn llunio adroddiad hirach. Byddwn yn egluro sut a pham y daethpwyd i'n casgliadau.

Os byddwn yn gweld bod yr adran wasanaeth wedi gwneud rhywbeth o'i le, byddwn yn dweud wrthych beth aeth o'i le a pham ddigwyddodd hynny.

Os byddwn yn darganfod bod diffyg yn ein systemau neu'r ffordd rydym yn gweithredu, byddwn yn dweud wrthych beth ydyw a sut rydym yn bwriadu newid pethau er mwyn iddo beidio â digwydd eto.

Os ydym wedi gwneud rhywbeth o'i le, byddwn bob amser yn ymddiheuro amdano.

3.11 Unioni'r Mater

Os na wnaethom ddarparu gwasanaeth ichi y dylech fod wedi'i gael, byddwn yn anelu at ei ddarparu cyn gynted ag sy'n ymarferol, os yw hynny'n bosibl.

Os na wnaethom rywbeth yn dda, byddwn yn ceisio'i gywiro.

Os ydych ar eich colled o ganlyniad i gamgymeriad a wnaethpwyd gennym ni, fel arfer byddwn yn ceisio eich rhoi yn y sefyllfa y byddech wedi bod ynddi pe baem wedi ei gael yn iawn.

3.12 Dysgu gwersi

Rydym yn trin eich cwynion o ddifri ac yn ceisio dysgu o unrhyw gamgymeriadau rydym wedi'u gwneud.

Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn ystyried crynodeb o'r holl gŵynion ddwywaith y flwyddyn ac adroddiad cwynion blynyddol manwl.

Rydym yn rhannu crynodeb (dienw) o'r wybodaeth am y cwynion sy'n dod i law a'r canlyniadau gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn rhan o'n hymrwymiad i atebolrwydd a dysgu.

Pan fo angen gwneud newidiadau sylweddol, bydd y gwasanaeth / maes gwasanaeth yn datblygu cynllun gweithredu sy'n amlinellu'r hyn y byddwn yn ei wneud, pwy fydd yn ei wneud, a phryd rydym yn bwriadu ei wneud.

3.13 Beth yr ydym yn ei ddisgwyl gennych chi

Ar adegau helbulus neu ofidus, efallai y bydd rhai pobl yn ymddwyn yn groes i'w cymeriad. Efallai y bu amgylchiadau annifyr neu ofidus a arweiniodd at gŵyn. Nid ydym yn ystyried ymddygiad yn annerbyniol oherwydd bod rhywun yn ymddwyn mewn modd grymus neu benderfynol yn unig. Credwn fod gan yr holl achwynwyr yr hawl i gael eu clywed, eu deall a'u parchu.

Fodd bynnag, rydym hefyd yn credu bod gan ein staff yr un hawliau. Felly, rydym yn disgwyl ichi fod yn gwrtais ac yn foneddigaidd wrth ymwneud â ni. Ni fyddwn yn goddef ymddygiad ymosodol na sarhaus, gofynion afresymol neu ddyfalbarhad afresymol.

Mae gennym bolisi ar wahân i reoli sefyllfaoedd pan fo gweithrediadau rhywun yn annerbyniol.

4. Os oes angen rhagor o gymorth arnoch

Bydd ein staff yn ceisio eich helpu i roi gwybod am eich pryderon. Os oes angen cymorth ychwanegol arnoch, byddwn yn ceisio eich rhoi mewn cysylltiad â rhywun a all helpu.

Os oes gennych anabledd sy'n golygu y gallai fod yn anodd i chi gyfathrebu â ni, rhowch wybod i ni beth fyddai'n ein helpu i oresgyn unrhyw rwystrau y gallech eu hwynebu (e.e. ffont mawr, mwy o amser i ymateb, papur lliw gwahanol)

Gall pawb ddefnyddio'r polisi cwynion hwn, ond os ydych o dan 18 oed ac angen cymorth gallwch gysylltu â llinell gymorth Meic

- Ffôn: 0808 802 3456
- Gwefan www.meiccymru.org

neu Comisiynydd Plant Cymru:

- Ffôn: 01792 765600
- E-bost post@complantcymru.org.uk
- Gwefan www.complantcymru.org.uk

4.1 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Os na fyddwn yn llwyddo i ddatrys eich cwyn, gallwch gwyno wrth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol ar yr holl gyrff cyhoeddus a gall edrych ar eich cwyn os ydych yn credu bod y canlynol wedi digwydd ichi, neu i'r unigolyn rydych yn cwyno ar ei ran:

- Eich bod cael triniaeth annheg neu wedi cael gwasanaeth gwael drwy ryw fethiant ar ran y darparwr gwasanaeth.
- Eich bod wedi bod o dan anfantais yn bersonol gan fethiant yn y gwasanaeth neu eich bod wedi cael eich trin yn annheg.

Fel arfer mae'r Ombwdsmon yn disgwyl eich bod yn dod â'ch pryderon at ein sylw ni yn gyntaf, ac yn rhoi cyfle i ni unioni'r sefyllfa.

Cyd-bwyllgor Corfforedig
De-orllewin Cymru
South West Wales
Corporate Joint Committee

Gallwch gysylltu â'r Ombwdsmon drwy:

- Ffôn: 0300 790 0203
- E-bost: holwch@ombwdsmon.cymru
- Gwefan: www.ombwdsmon.cymru
- Swydd: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
  1 Ffordd yr Hen Gae,
  Pencoed CF35 5LJ

Mae sefydliadau eraill ar gael hefyd sy'n rhoi ystyriaeth i gwynion. Gallwn roi cyngor ichi am sefydliadau o'r fath.

Cyd-bwyllgor Corfforedig
De-orllewin Cymru
South West Wales
Corporate Joint Committee

5. Ffurflen Sylwadau, Canmoliaeth a Chwynion

Nodwch:

Os ydych yn llenwi'r ffurflen hon ar ran rhywun arall, cwblhewch Adran B hefyd. Dylai'r unigolyn rydych yn cwyno ar ei ran lenwi'r ffurflen Awdurdod Cynrychiolydd (Adran C) i gadarnhau bod gennych yr awdurdod i weithredu ar ei ran.

Adran A: Eich manylion

Enw'r adain/gwasanaeth/unigolyn mae'r gŵyn yn ymwneud ag ef/hi:

Teitl: Mr/Mrs//Miss/Ms (os 'arall', nodwch)	
Cyfenw:	
Enw(au) Cyntaf:	
Nodwch pa rai o'r canlynol sy'n cael ei ffafrio gennych o ran dull cyfathrebu	
Cyfeiriad a chôd post:	
Rhif cyswllt yn ystod y dydd:	
Rhif cyswllt ffôn symudol:	
Cyfeiriad e-bost:	

Os yw ein ffordd arferol o ymdrin â chwynion yn ei gwneud yn anodd ichi ddefnyddio ein gwasanaeth, er enghraifft, os nad Cymraeg neu Saesneg yw eich iaith gyntaf neu os ydych am ymgysylltu â ni mewn ffordd benodol, rhowch wybod inni er mwyn inni allu trafod sut y gallwn eich helpu.

Cyd-bwyllgor Corfforedig
De-orllewin Cymru
South West Wales
Corporate Joint Committee

Adran B: Cwyno ar ran rhywun arall:

Enw'r unigolyn yn llawn:	
Cyfeiriad a chôd post yr unigolyn:	
Beth yw eich perthynas â nhw?	
Pam rydych yn gwneud cwyn ar ei ran?	

Cyd-bwyllgor Corfforedig
De-orllewin Cymru
South West Wales
Corporate Joint Committee

Adran C: Awdurdod Cynrychiolydd

Rwyf i ……..... (rhowch enw'r achwynydd yn llawn)

o.....(rhowch gyfeiriad yr achwynydd yn llawn)

yn cadarnhau fy mod wedi awdurdodi:

…….. (rhowch enw llawn yr unigolyn sy'n cyflwyno cwyn ar eich rhan)

i wneud cwyn i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig am

…….

……..

…….

ac rwy'n deall y gallai fy nghynrychiolydd gael gwybodaeth bersonol sy'n ymwneud â'm cwyn fel rhan o ymateb y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

Llofnodwyd…….

Dyddiad……..

Cyd-bwyllgor Corfforedig
De-orllewin Cymru
South West Wales
Corporate Joint Committee

Adran D: Ynglŷn â'ch cwyn

(Parhewch â'ch atebion i'r cwestiynau canlynol ar ddalen(nau) ar wahân os oes angen).

1. Enw'r adran/adain/gwasanaeth rydych yn cwyno amdano/amdani:

2. Beth ydych yn meddwl wnaethant o'i le, neu fethu gwneud?

3. Disgrifiwch sut rydych yn bersonol wedi dioddef neu sut y mae hyn wedi effeithio arnoch:

4. Beth, yn eich barn chi, ddylid ei wneud i wneud pethau'n iawn?

5. Pryd y daethoch yn ymwybodol o'r broblem gyntaf?

6. A ydych chi eisoes wedi cyflwyno eich pryder i staff sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth? Os felly, rhowch fanylion cryno ynghylch sut a phryd y gwnaethoch hyn:

7. Os oes mwy na chwe mis wedi bod ers ichi ddod yn ymwybodol o'r broblem, nodwch pam nad ydych wedi cwyno cyn hyn:

Os oes gennych unrhyw ddogfennau i gefnogi'ch cwyn, atodwch nhw gyda'r ffurflen hon.

Llofnod:

Dyddiad:

Adran E: Ffurflen Sylwadau a Chanmoliaeth

Rhowch fanylion eich canmoliaeth neu sylwadau isod

Diolch am ddarparu'r wybodaeth hon.

Wedi i chi ei chwblhau,

- postiwch y ffurflen at:

  At sylw'r Swyddog Monitro
  Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru
  Trwy ofal
  Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
  Y Ganolfan Ddinesig
  Port Talbot
  SA13 1PJ

- e-bostiwch hi yn ôl at y swyddog a anfonodd y wybodaeth atoch.